

Blog ENYA 2021

Ar y cyntaf ac ail o Orffennaf, gyda Mads, yn ogystal â'n cydlynwyr ENYA, Sophie a Rhian, fe wnes i ymuno â Fforwm ENYA 2021. ENYA yw Rhwydwaith Ymgynghorwyr Ifanc Ewrop, ac roedd y cyfarfod yma'n dod â phobl ifanc ynghyd o wledydd ar draws Ewrop i drafod effaith COVID-19 ar hawliau plant ac i ffurfio argymhellion i lywodraethau ar beth ddylai gael ei wneud i ddiogelu'r hawliau hynny. Er ein bod ni'n methu cwrdd wyneb yn wyneb yn Malta, roedd yn dal yn swreal gweld yr holl ymdrechion i sicrhau bod cynrychiolwyr o bob rhan o'r cyfandir yn medru dod at ei gilydd i rannu misoedd o drafodaethau yn eu gwledydd eu hunain ac yn eu plith.

Cychwynnodd prosiect ENYA yng Nghymru fisoedd cyn y cyfarfod fforwm. Gan fy mod yn rhan o'n panel Ymgynghorol Ieuenctid Comisiynydd Plant Cymru, daeth grwp ohonom ynghyd i weithio ar ein hargymhellion Cymreig ein hunain. Bu ein grŵp cwrdd bob pythefnos, gan cychwyn yn treulio amser yn dod i nabod ein gilyddd, dysgu am 'ENYA', a phwrpas y rhwydwaith. Fe wnaeth y rhwydwaith greu tipyn o argraff ar bob un ohonom ni, ac roedden ni'n gyffrous am y cyfleoedd cafodd eu darparu i bobl ifanc rhannu eu meddyliau ar faterion amrywiol sy'n ymwneud â hawliau plant.

Yn araf deg fe wnaethon ni ddechrau creu ein hargymhellion ar y thema, sef effaith COVID-19 ar bobl ifanc. Fe wnaethon rhannu profiadau, teimladau a dysgu oddi wrth ein gilydd er mwyn helpu i lunio argymhellion oedd yn cynrychioli meddyliau a gobeithion pob un ohonom. Fe wnaethon ni bleidleisio i gytuno ar y themau roedden ni'n teimlo oedd bwysicaf i ni gan gynnwys Addysg, Gofal Iechyd a Theuluoedd. Oddi yno, fe wnaethon ni greu argymhellion ar sail sut mae angen gwella'r meysydd hynny o ran hawliau plant yn ystod pandemig COVID-19 a'r tu hwnt.

Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com



**Comisiynydd
Plant Cymru**
Children's
Commissioner
for Wales

Fe gawson ni'n hysbrydoli gan y profiad cyfan, ac roedd pob un ohonom ni'n teimlo'n angerddol ynghylch yr argymhellion terfynol. Gan mai dim ond dau gynrychiolydd oedd yn gallu mynd i fforwm swyddogol ENYA, fe benderfynon ni ethol dau aelod o'n tîm yng Nghymru gan roi anerchiad ar pam hoffen ni mynychu'r digwyddiad. Roeddwn i'n teimlo'n freintiedig ac yn hapus bod fy nghyfoedion wedi fy ethol i gynrychioli'r grŵp. Roeddwn i'n edrych mlaen i fod yn llais i'w meddyliau ar y pwnc.

Er mai dim ond dau ddiwrnod oedd fforwm ENYA, roedd yn brofiad bythgofiadwy. Cyn y fforwm, fe fuon ni'n gweithio'n galed i lunio fersiwn derfynol o'n hargymhellion. Yn ystod y ddau ddiwrnod, fe gynhalion ni weithdai ar bob is-bwnc a gweithio gyda gwledydd eraill i weld pa argymhellion oedd yn flaenoriaeth, a pha rai ddylai gael eu hanfon i dderbyn sylw gan gyrff llywodraethu. Roedd yn rhyfeddol gweld y gwaith roedd gwledydd eraill wedi'i wneud a'r angerdd roedd pawb ohonon ni'n ei rannu. Fe lwyddon ni hefyd i gael llawer o hwyl ar hyd y ffordd, gydag sialens ystafell dianc a hyd yn oed daith rithwir o amgylch safle archaeolegol Malta, yr Hypogeum. Fe wnes i fwynhau fy mhrofiad ENYA yn aruthrol. Hoffwn ddiolch yn enfawr i Rhian, Sophie a phawb arall a fu'n helpu i drefnu profiad oedd yn gymaint o hwyl.

Saiba Ahuja

